
YSGOL I.D. HOOSON

21.5.20

PWYSIG / IMPORTANT DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA/ PLEASE READ

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,
Dear Parent/Carer,

Wrth i ni barhau gyda threfniadau dyddiol yn darparu gofal ar gyfer y plant i weithwyr allweddol, a fyddech cystal a chymryd sylw o'r wybodaeth ganlynol os gwelwch yn dda.

A fyddech cystal a sicrhau eich bod yn gofyn am wneud defnydd o'r ysgol ar gyfer gofal plant DIM OND mewn sefyllfa ble nad oes unrhyw ddewis neu opsiwn arall posib ar gael ar gyfer gofalu am eich plentyn. Rydym yn parhau i annog rhieni/gofalwyr i gadw plant o'r ysgol os nad oes unrhyw bosibiliadau ac opsiynau eraill ar gyfer gofal plant. Oherwydd difrifoldeb y sefyllfa yr ydym ynddi, ein nod yw i wneud popeth sydd yn bosib i gadw niferoedd o blant sydd yn mynychu ysgol i'r nifer lleiaf posib. Rydym yn parhau i fyw gyda'r panedemig Covid 19, ac mae dod a'r plant i'r ysgol yn parhau i gyflwyno lefel o risg. Felly, hoffwn bwysleisio mai ar hyn o bryd, adref yn y cartref yw y lle mwyaf diogel a gyfer eich plentyn.

Os ydych wedi ymchwilio i bob posibilrwydd arall o ran gofal plant, ac eich bod yn dod a'ch plentyn i'r ysgol, hoffwn hefyd eich atgoffa fod angen i chi sicrhau eich bod wedi hysbysu yr ysgol ar ddiwedd pob wythnos, cyn 3 o'r gloch ar b'nawn Gwener drwy e.bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk o pa ddiwrnodiau y byddwch angen gofal ar gyfer eich plentyn yn ystod yr wythnos ganlynol. Rydym angen y wybodaeth yma ar gyfer ein trefniadau staffio. Os na fyddwch wedi hysbysu'r ysgol, ni fydd yn bosib troi fyny gyda'r plentyn yn ddi-rybudd.

Os yw eich sefyllfa yn newid mewn unrhyw ffordd, e.e. aelod o'r teulu yn datblygu symptomau coronafirws, yna mae cyfrifoldeb arnoch i hysbysu yr ysgol ar unwaith.

Yn olaf, a fyddech cystal a chynnal trafodaeth gyda'ch plentyn i godi ymwybyddiaeth ymhellach o bwysigrwydd ymbellhau cymdeithasol yn yr ysgol. Mae'r staff yn parhau i gyflwyno'r negeseuon hyn yn ddyddiol i'r plant, ac felly byddai cysondeb o ran y negeseuon a ddaw o'r cartref yn ddefnyddiol ac yn cyfrannu tuag at godi ymwybyddiaeth y plant ymhellach.

Unwaith eto, pan fydd yr ysgol yn cael gwybod am ddatblygiadau arwyddocaol o ran yr ysgol, byddwn yn eich hysbysu ar unwaith. Gwneir hyn drwy ein gwefan, Schoop a chyfiri Trydar yr ysgol.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad,
Yn ddiffuant,

Rhodri Jones
Pennaeth / Headteacher